FIBRESPEED

NEWSLETTER/NEWYDDION July/Gorffennaf 2009

NEW FIBRESPEED PERSONNEL TO HELP GENERATE MORE BUSINESS

The wholesaler of the FibreSpeed optical fibre network has expanded its team to help facilitate the take-up of communication services by end users.

David Fergus

David Ferguson has joined FibreSpeed Limited as business development manager while Steve Bishop will act as an important link between sales and technical support. Belfast-born David had a successful career at Marconi and claims technology is "in his blood."

He said: "My role is to evangalise about the FibreSpeed network as an alternative to existing technology and focus on attracting national carriers to the network.

"I think now is an excellent time for forward-thinking companies to consider future strategies and IT communications will play a key part in that."

Steve, FibreSpeed's customer service and technical advisor, expects his work to be a little less dangerous than in previous roles. Previously in charge of IT infrastructure for a company with 43 offices in 33 countries, 30-year-old Steve dodged bullets in Nigeria, muggings in Cameroon and potential kidnappers in Java while setting up offices with IT!

Now based on Anglesey, Steve said: "I like it here and everyone seems very friendly. I've had some excitement in my lifetime but I'm older now and would rather stay out of harm's way!

"I'm really looking forward a change of lifestyle while fulfilling my role to make FibreSpeed the success it deserves to be."

NEW FIBRESPEED PERSONNEL TO HELP GENERATE MORE BUSINESS

Mae cyfanwerthwr rhwydwaith ffibr optic FibreSpeed wedi helaethu ei dîm er mwyn galluogi rhagor o ddefnyddwyr i fanteisio ar y gwasanaethau cyfathrebu.

Ymunodd David Ferguson â FibreSpeed Limited fel rheolwr datblygu busnes a bydd Steve Bishop yn gyswllt pwysig rhwng gwerthu a chefnogaeth dechnegol. Wedi'i eni'n Belfast cafodd David yrfa lwyddiannus gyda Marconi ac mae'n honni fod technoleg 'yn ei waed'.

Meddai: Fy rôl yw efengylu am rwydwaith FibreSpeed fel rhywbeth gwahanol i'r dechnoleg bresennol a chanolbwyntio ar ddenu cludwyr cenedlaethol i'r rhwydwaith.

"Rwy'n credu fod hyn yn amser rhagorol i gwmnïau blaengar ystyried strategaethau'r dyfodol a bydd cysylltiadau TG yn chwarae rhan allweddol yn hynny."

Mae Steve, ymgynghorydd gwasanaeth y cwsmer a thechnegol, yn disgwyl y bydd ei waith ychydig yn llai peryglus nag o'r blaen. Yn gyfrifol am seilwaith TG cwmni gyda 43 o swyddfeydd mewn 33 o wledydd, bu Steve yn osgoi bwledi yn Nigeria, mewn perygl o gael ei fygio yn Camer_n a bron a chael ei herwgipio yn Java wrth osod TG mewn swyddfeydd!

Steve

Yn byw erbyn hyn yn Sir Fôn, meddai Steve: "Rwy'n hoffi bod yma ac mae pawb i'w gweld yn gyfeillgar iawn. Rwy wedi cael peth cynnwrf yn fy oes ond rwy'n h_n erbyn ac mae'n well gen i fod yn groeniach!

Rwy'n edrych ymlaen yn arw at newid ffordd o fyw a helpu i wneud FibreSpeed y llwyddiant mae'n haeddu bod.

NOT ON THE NETWORK? WE STILL WANT TO HEAR FROM YOU!

Businesses located away from the FibreSpeed network still have the potential to connect to the network. That was the message to come from IT communications experts during a FibreSpeed presentation to businesses and public sector officials in Bangor.

Network officials are working closely with business networks, local authorities and Welsh Assembly Government business support advisors to assess demand. If demand is sufficient in areas away from the network, connections to it become more feasible, according to the IT companies whose job it is to help connect businesses and manage their services over the network.

At the FibreSpeed presentation in The Management Centre concerns were raised from some businesses about their ability to connect to the £30m network. Yet demand has already led to the original network being expanded. FibreSpeed service provider Keycom has connected student accommodation in Bangor to the network at Parc Menai using licensed microwave wireless technology, routed via equipment at Ysbyty Gwynedd. And Cibyn Industrial Estate in Caernarfon, where several businesses want to connect, will be a new addition later in the year.

FibreSpeed sales manager Richard Forde-Johnston said: "We're working with many different agencies to bring all enquiries from business together and see where the demand is.

"What we're saying is, whether you're near a connection point on the network or not, get in touch and talk to our service providers."

The next presentation centres on the island of Anglesey. It's expected to take place during Anglesey Business Week at the end of September. More details soon. To register your interest email fibrespeed@sbarc.net

DDIM AR Y RHWYDWAITH? RYDYM EISIAU CLYWED ODDI WRTHYCH!

Gall busnesau sydd ymhell o rwydwaith FirbreSpeed ddal cael eu cysylltu â'r rhwydwaith. Dyma oedd neges arbenigwyr cyfathrebu TG mewn cyflwyniad FibreSpeed i swyddogion yn y sectorau busnes a chyhoeddus ym Mangor.

Mae swyddogion y rhwydwaith yn gweithio'n agor gyda rhwydweithiau busnes, awdurdodau lleol ac ymgynghorwyr cefnogi busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu'r galw. Os oes digon o alw mewn ardal ymhell o'r rhwydwaith, gall y daw'n haws cysylltu, yn ôl cwmnïau TG sy'n gweithio i gysylltu busnesau a rheoli eu gwasanaethau dros y rhwydwaith.

Mynegwyd pryderon gan rai busnesau yng nghyflwyniad FibreSpeed yn y Ganolfan Rheolaeth ynghylch eu gallu i gysylltu â'r rhwydwaith £30 miliwn. Eto, mae'r galw eisoes wedi arwain at ymestyn y rhwydwaith wreiddiol. Cysylltodd y darparydd gwasanaeth FibreSpeed, Keycom, lety myfyrwyr ym Mangor â'r rhwydwaith ym Mharc Menai gyda thechnoleg ddiwifr microdon trwyddedig trwy offer yn Ysbyty Gwynedd. A bydd Ystâd Ddiwydiannol Cibyn yng Nghaernarfon, lle mae nifer o fusnesau eisiau ymuno, yn ychwanegiad newydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Meddai Rheolwr Datblygu Busnes FibreSpeed, Richard Forde-Johnston: "Rydym yn gweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau i gydlynu'r holl ymholiadau gan fusnes a gweld lle mae'r gofyn.

"Yr hyn rydym yn ei ddweud yw, a ydych ger pwynt cysylltu â'r rhwydwaith ai peidio, cysylltwch a siaradwch â'n darparwyr gwasanaeth."

Bydd y cyflwyniad nesaf yn canolbwyntio ar Ynys Môn. Disgwylir y bydd yn cael ei gynnal yn ystod Wythnos Fusnes Môn ddiwedd Medi. Manylion pellach yn y man. E-bostiwch fibrespeed@sbarc.net i gofrestru'ch diddordeb.

What can FibreSpeed do for my business?

FibreSpeed connects business parks, industrial estates and other many locations to provide affordable high-speed broadband services. These services can make your business more competitive and more profitable, but most significantly they can help you expand or launch exciting new ventures – what wasn't possible with standard internet could be with FibreSpeed.

What kind of connectivity does your business need? Let us know, and we can help you find a solution that's just right for you. Talk to our Service Provider Partners to develop the right end product for your organisation.

Give us a call today or visit our website to keep up to date with latest developments and register your interest.

Beth all FibreSpeed ei wneud i'm busnes i?

Mae FibreSpeed yn cysylltu parciau busnes, ystadau diwydiannol a sawl man arall drwy ddarparu gwasanaethau band eang hynod gyflym a fforddiadwy. Gall y gwasanaethau hyn wneud eich busnes yn fwy cystadleuol a phroffidiol ond, yn fwyaf arbennig, gall y rhain eich helpu i ymestyn neu lansio mentrau newydd cyffrous – gellid gwneud gyda FibreSpeed yr hyn nad oedd yn bosibl gyda rhyngrwyd cyffredin.

Pa fath o gysylltedd y mae eich busnes ei angen? Gadewch i ni wybod a gallwn helpu i ganfod yr ateb sy'n iawn ar eich cyfer chi. Trafodwch gyda'n Partneriaid Darparu Gwasanaeth a datblygu cynnyrch sy'n iawn ar gyfer eich sefydliad chi.

Rhowch alwad i ni heddiw neu ewch i'n gwefan i ganfod y datblygiadau diweddaraf a chofnodi eich diddordeb.

SERVICE PROVIDERS FOCUS...

Each issue we focus on one of the growing number of businesses that can help YOU get the most from the FibreSpeed network.
This issue: Obsidian Networks

Vital statistics:
Based on the North Wales border, Obsidian specialises in offering network consultancy and system integration to SMEs. We have our own secure data centre and ADSL provision, enabling us to have complete control over network systems.
We provide a range of IT packages including internet services such as domains, email, broadband, server co-location and web hosting, and network services including; complete provision of design and implementation of systems and networks, network configuration, backup services, security and maintenance.

Why choose Obsidian?
At Obsidian we pride ourselves in great service. We offer an excellent support system, allowing you to talk directly to a qualified engineer to address your issues immediately. We strive to deploy solutions tailored to your organisation's specific requirements. It's important that the technology fits around you and not the other way round.

Why should my organisation adopt FibreSpeed?
It's a fibre optic communications network that will improve and enhance any organisation's communications. FibreSpeed differs from usual ADSL broadband in that it is faster - with download speeds starting at 10Mbs and unlike ADSL upload speed is exactly the same as download speed. It offers more bandwidth and it's reliable - it doesn't slow down with sharing. It is always on and cost-effective - there is no need to pay for a leased line direct to Manchester yourself now there is provision on your doorstep! These features will save you time and increase your organisation's productivity, future-proofing your business and making you more competitive.

Describe a situation where you helped a business using high-speed communications
Chester Zoo has one of the largest online stores servicing millions of consumers at any one time. They needed 100% uptime with resilient fast connectivity in order to fulfil the demand of their online presence. Obsidian has provided a 100Mb Point-to-Point connection between the two sites linking Chester Zoo with high-speed bandwidth to the world through our dedicated line to Manchester. The competitive element of this solution is that Chester Zoo will only ever pay for what they use.

Jordi Morrell, Managing Director
www.obsidian-networks.co.uk

Y DARPARWYR GWASANAETH...

Bydd pob rhifyn yn canolbwyntio ar y nifer cynyddol o fusnesau sy'n gallu eich helpu CHI i gael y gorau o rwydwaith FibreSpeed.
Y rhifyn hwn: Obsidian Networks

Ystadegau hanfodol:
Gyda'i swyddfa ar ororau gogledd Cymru, mae Obsidan yn arbenigo ar gynnig ymgynghoriaeth rhwydwaith a chyfuno systemau i Fusnesau Bach a Chanolig. Mae gennym ein canolfan ddata ddiogel a'n darpariaeth ADSL ein hunain, sy'n ein galluogi i gael rheolaeth lawn dros ein systemau rhwydwaith.
Rydym yn darparu amrywiaeth o becynnau TG gan gynnwys gwasanaethau rhyngrwyd megis parthau, ebost, band eang, cydleoli gweinyddion a gwesteia'r we, a gwasanaethau rhwydwaith gan gynnwys; darpariaeth lawn ddylunio a gweithredu systemau a rhwydweithiau, ffurfweddu rhwydweithiau, gwasanaethau wrth gefn, diogeledd a chynnal a chadw.

Pam dewis Obsidian?
Rydym ni yn Obsidan yn cymryd balchder mawr mewn darparu gwasanaeth gwych. Rydym yn cynnig system gefnogi ardderchog sy'n eich galluogi i siarad gyda pheiriannydd cymwys i daclo'ch problemau ar unwaith. Rydym yn ymdrechu i deilwra atebion i ofynion penodol eich sefydliad chi. Mae'n bwysig fod y dechnoleg yn cydweddu â chi ac nid fel arall.

Pam y dylai fy sefydliad fabwysiadu FibreSpeed?
Mae'n rhwydwaith gyfathrebu ffibr optig a fydd yn gwella ac yn ehangu cysylltiadau unrhyw sefydliad. Mae FibreSpeed yn wahanol i fand eang ADSL cyffredin gan ei fod yn gyflymach - gyda chyflymder llawr lwytho yn dechrau ar 10Mbs ac, yn wahanol i ADSL, mae'n lwytho i fyny'r un mor gyflym ag yw'n llawr lwytho. Mae'n cynnig mwy o led band ac mae'n ddibynadwy – nid yw'n arafu wrth rannu. Mae wastad ymlaen ac yn gost effeithiol - does dim rhaid i chi eich hunan dalu am brydlesu llinell yn uniongyrchol i Fanceinion, mae darpariaeth ar eich rhiniog erbyn hyn! Bydd hyn yn arbed amser i chi ac yn cynyddu cynhyrchiant eich sefydliad, yn diogelu eich busnes at y dyfodol ac yn eich gwneud yn fwy cystadleuol.

Rhowch enghraifft o sut rydych wedi helpu busnesau'n defnyddio cysylltiadau hynod gyflym
Mae gan S_ Caer un o'r siopau ar lein mwyaf yn gwerthu i filiynau o gwsmeriaid ar lein ar unrhyw adeg. Maen nhw agen bod ar lein 100% o'r amser gyda chysylltedd cadarn a chyflym er mwyn ateb y gofyn am eu presenoldeb ar lein. Mae Obsidan wedi darparu cysylltiad Pwynt i Bwynt 100MB rhwng dwy safle yn cysylltu S_ Caer gyda lled band cyflym gyda gweddill y byd drwy ein llinnell benodol i Fanceinion. Yr elfen gystadleuol yn y ddarpariaeth yw na fydd S_ Caer byth yn talu ond am yr hyn y bydd yn ei ddefnyddio.
Jordi Morrell, Rheolwr Gyfarwyddwr
www.obsidian-networks.co.uk

Where to find out more…
Visit **www.fibrespeed.co.uk** for more information. From there you can find service providers who can connect you and get you up and running.

Alternatively, email **enquiries@fibrespeed.co.uk** or call **0844 225 2190**.

Lle i ganfod rhagor….
Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â **www.fibrespeed.co.uk**. Yno gallwch ganfod darparwyr gwasanaeth sy'n gallu eich cysylltu â'ch rhoi ar ben y ffordd.

Neu ebostiwch **enquiries@fibrespeed.co.uk** neu ffonio **0844 225 2190**.

Forthcoming events/Digwyddiadau'r dyfodol:
10 September/Medi - Isle of Angelsey/Ynys Môn **6 October/Hydref** - Wrexham/Wrecsam **21 October/Hydref** - Conwy
For further details and to register visit **www.fibrespeed.co.uk**/Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru ewch i **www.fibrespeed.co.uk**